Atodiad 1 – Adroddiad Ymgynghori

**Cwestiwn 1:**

| **Enw** | **Cyf. Sylw** | **1. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 1: Cyd-destun? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt.** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|---|
| Chris Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) | CC7.1 | Byddai dogfen ymgynghori'r CDLl yn elwa o brawddeg syml (hawdd ei darllen) ar y cychwyn cyntaf, yn egluro beth yw CDLl a beth yw ei bwrpas.<br><br>Mae gweddill y ddogfen yn glir ac yn ymarferol, ond mae'n tybio gwybodaeth gefndirol yn y maes.<br><br>1.6 Er bod y trefniant cydweithio rhwng Cyngor Gwynedd ac CSYM ar faterion polisi cynllunio (a CDLl ar y Cyd) wedi dod i ben, rydym yn cefnogi eu bwriad i gydweithio pan fydd cyfleoedd yn codi i gomisiynu darnau o waith ar y cyd.<br><br>1.7 Cydymffurfio â Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 - Blaenoriaeth amlinelledig i wella iechyd a lles ein cymunedau sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. | Cytunir gyda'r egwyddor o fod yn cynnwys paragraff ychwanegol yn y cyflwyniad sydd yn amlygu beth yw pwrpas CDLl. Gobeithio, drwy wneud hynny y bydd yn gwella dealltwriaeth y darllenwr o'r ddogfen.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio'r Cytundeb Cyflawni drwy ychwanegu paragraff 1.1.2, sydd yn amlygu beth yw pwrpas Cynlluniau Datblygu Lleol. |
| Aled Evans | CC8.1 | Oes. Rhan 1.4 - Profion Cadernid tudalen 6 ac atodiad 4 - Profion Cadernid tudalen 48<br><br>Nodaf -<br>Pan fabwysiadwyd y Cynllun Datblygu ar y Cyd Gwynedd a Mon 28/7/2017 credaf bod | Mae'r broses baratoi a derbyn cymeradwyaeth o Gynllun Datblygu Lleol yn cael ei osod mewn deddfwriaeth, gan hynny mae'n ofynnol paratoi'r Cynllun yn unol â'r gofynion statudol. |

| Enw | Cyf. Sylw | 1. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 1: Cyd-destun? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | peth dryswch neu gamddealltwriaeth wedi bod ynglŷn a'r term "cadarn". Tybid gan rai bod y Cyngor yn mabwysiadu Cynllun oedd yn gadarn yng ngolwg y Cyngor a'i fod yn cyd-fynd a dyheadau'r Cyngor . Drwy hyn yn sicr o warchod buddiannau'r Gymraeg yn y sir. Er hynny fe ddiystyrwyd 1700 o wrthwynebiadau i'r cynllun a hefyd dyhead cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2016 i fesur effaith y CDLl ar y Gymraeg.<br><br>Nodaf ymhellach -<br>Y mae paragraff 1.4.2. "Yr Arolygydd fydd yn cynnal yr Archwiliad Cyhoeddus fydd yn penderfynu os ydi'r CDLl yn gadarn." Profion cadernid yr Arolygydd, cynrychiolydd y llywodraeth, yr arolygaeth gynllunio, ydi'r profion ac felly drwy hynny, i raddau helaeth iawn, dyheadau'r llywodraeth a'u polisïau fydd yn cael y flaenoriaeth.<br><br>Fel rhan o'r profion cadernid a nodir yn Atodiad pedwar byddwn yn ychwanegu'r tri chwestiwn canlynol -<br><br>Prawf 1 a yw'r cynllun yn addas? – cwestiwn ychwanegol<br>A yw'r cynllun yn ystyried effaith y cynllun ar | Nodir fod yr ychwanegiadau sydd yn cael ei gynnig i'r profion cadernid yn ymwneud ac effaith y Cynllun ar yr iaith Gymraeg. Fe fydd yn ofynnol ystyried effaith y Cynllun ar y Gymraeg (adran 62(6A) PCPA 2004 fel y'i mewnosodwyd gan adran 11, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015) a bydd hynny'n cael ei wneud ar ffurf yr Arfarniad Cynaliadwyedd.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nodir sylw. Dim Newid |

| Enw | Cyf. Sylw | 1. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 1: Cyd-destun? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | y nifer a chanran o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd?<br><br>Prawf 2 - a yw'r cynllun yn briodol? – cwestiwn ychwanegol<br>A yw'n glir bod gwarchod y Gymraeg yn rhan o'r cynllun fel ac y mae yn y mwyafrif o bolisïau Gwynedd.<br><br>Prawf 3 – A fydd y cynllun yn cyflawni ?- (a fydd yn debygol o fod yn effeithiol) cwestiwn ychwanegol?<br>A yw'n cael ei fonitro yn effeithiol? Ac a fydd y effaith y tai godir a'u lleoliad yn cael ei fonitro ac effaith hynny ar yr iaith?" | |
| Cyngor Cymuned Llanystumdwy | CC11.1 | Oes. Rhan 1.4 - Profion Cadernid tudalen 6 ac atodiad 4 - Profion Cadernid tudalen 48<br><br>Nodaf -<br>Pan fabwysiadwyd y Cynllun Datblygu ar y Cyd Gwynedd a Mon 28/7/2017 credaf bod peth dryswch neu gamddealltwriaeth wedi bod ynglŷn a'r term "cadarn". Tybid gan rai bod y Cyngor yn mabwysiadu Cynllun oedd yn gadarn yng ngolwg y Cyngor a'i fod yn cyd-fynd a dyheadau'r Cyngor . Drwy hyn yn sicr o warchod buddiannau'r Gymraeg yn y sir. Er hynny fe ddiystyrwyd 1700 o wrthwynebiadau i'r cynllun a hefyd dyhead | Mae'r broses baratoi a derbyn cymeradwyaeth o Gynllun Datblygu Lleol yn cael ei osod mewn deddfwriaeth, gan hynny mae'n ofynnol paratoi'r Cynllun yn unol â'r gofynion statudol.<br><br>Nodir fod yr ychwanegiadau sydd yn cael ei gynnig i'r profion cadernid yn ymwneud ac effaith y Cynllun ar yr iaith Gymraeg. Fe fydd yn ofynnol ystyried effaith y Cynllun ar y Gymraeg (adran 62(6A) PCPA 2004 fel y'i mewnosodwyd gan adran 11, Deddf Cyllunio (Cymru) 2015) a bydd hynny'n cael ei wneud ar ffurf yr Arfarniad Cynaliadwyedd.<br><br>**Argymhelliad** |

| Enw | Cyf. Sylw | 1. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 1: Cyd-destun? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2016 i fesur effaith y CDLl ar y Gymraeg.<br><br>Nodaf ymhellach -<br>Y mae paragraff 1.4.2. “Yr Arolygydd fydd yn cynnal yr Archwiliad Cyhoeddus fydd yn penderfynu os ydi’r CDLl yn gadarn.” Profion cadernid yr Arolygydd, cynrychiolydd y llywodraeth, yr arolygaeth gynllunio, ydi’r profion ac felly drwy hynny, i raddau helaeth iawn, dyheadau’r llywodraeth a’u polisïau fydd yn cael y flaenoriaeth.<br><br>Fel rhan o’r profion cadernid a nodir yn Atodiad pedwar byddwn yn ychwanegu'r tri chwestiwn canlynol -<br><br>Prawf 1 a yw’r cynllun yn addas? – cwestiwn ychwanegol<br>A yw’r cynllun yn ystyried effaith y cynllun ar y nifer a chanran o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd?<br><br>Prawf 2 - a yw’r cynllun yn briodol? – cwestiwn ychwanegol<br>A yw’n glir bod gwarchod y Gymraeg yn rhan o’r cynllun fel ac y mae yn y mwyafrif o bolisïau Gwynedd. | Nodir sylw. Dim Newid |

Atodiad 1 – Adroddiad Ymgynghori

| Enw | Cyf. Sylw | **1. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 1: Cyd-destun? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt.** | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | Prawf 3 – A fydd y cynllun yn cyflawni ?- (a fydd yn debygol o fod yn effeithiol) cwestiwn ychwanegol?<br>A yw'n cael ei fonitro yn effeithiol? Ac a fydd y effaith y tai godir a'u lleoliad yn cael ei fonitro ac effaith hynny ar yr iaith?" | |
| Mike Stevens | CC14.1 | Paragraff 1.5.4 Bydd rhaid i'r ARhC roi mwy o sylw a chefnogaeth i ardal de Gwynedd a Tywyn a gafodd ei wasanaethu'n wael iawn yn y CDLl blaenorol. Is-raddiwyd de Gwynedd i atal datblygiad. Tywyn yw "Mam" dref y de gyda chwe phentref mawr sy'n edrych i'r dref fel eu canolfan adnoddau. Nid oes gan swyddogion anghysbell yng Nghaernarfon lawer o bryder na ffocws ar gyfer yr ardal. Mae'n rhaid i Gyngor Gwynedd leoli swyddfa ranbarthol yn Nhywyn. | Bydd ystyried beth yw rôl aneddleoedd a sut maent yn gwasanaethu'r ardal ehangach yn derbyn ystyriaeth wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol fynd yn ei flaen.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nodir sylw. Dim Newid |

**Cwestiwn 2:**

| Enw | Cyf. Sylw | **2. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 2: Yr Adnoddau a'r Amserlen? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt.** | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| Graham Davies | CC3.2 | Paragraff 2.1.2 - ymddengys bod y broses yn ddibynnol ar dîm bach o staff sy'n amlygu | Cydnabyddir fod y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd o fewn yr amserlen a nodir yn heriol, fodd bynnag |

| Enw | Cyf. Sylw | 2. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 2: Yr Adnoddau a’r Amserlen? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | oedi yn y broses pe bai absenoldebau neu aelodau o'r tîm yn gadael. O'r amser a ddyrannwyd, mae'n ymddangos y bydd y tîm hefyd yn cyflawni dyletswyddau eraill gan amlygu’r broses ymhellach i oedi wrth flaenoriaethu llwyth gwaith a'r galw gan reolwyr llinell. Oes yna reswm pam mae 2 arweinydd tîm, pwy fyddai'n rheoli pwy?<br><br>Paragraff 2.3.2 - Cam 2 Galw am safleoedd - Mae'r cyfnod a nodwyd Mawrth/ Ebrill 2024 yn rhy fyr. Sut y bydd darpar dirfeddianwyr yn cael gwybod bod y Cyngor yn chwilio am safleoedd datblygu arfaethedig. Mae bellach yn fis Tachwedd 2023, 4 mis o'r cyfnod arfaethedig. Rwy'n credu y byddai cyfnod o 6 mis yn fwy addas ac y byddai'n rhoi cyfle drwy hysbysebu, llafar gwlad ac ati i dirfeddianwyr ystyried a fyddent yn hoffi i'w tir gael ei ystyried felly o bosibl yn darparu tir o safon i'w ystyried. | mae gan staff y Gwasanaeth Polisi Cynllunio profiad helaeth o baratoi Cynlluniau Datblygu sydd yn fanteisiol.<br><br>Nodir fod gan y Gwasanaeth berthynas drawsadrannol dda gyda Gwasanaethau eraill sydd yn bwydo fewn i'r broses o baratoi Cynllun newydd.<br><br>Ymhellach mae cyllid wedi ei glustnodi er mwyn ymgymryd â darnau arbenigol (pan yn angenrheidiol ac yn briodol) o waith sydd yn mynd i hwyluso'r broses ac ysgafnu'r baich ar staff y Gwasanaeth.<br><br>Pwysleisir fod yr amserlen sydd wedi ei amlygu yn y Cytundeb Cyflawni yn nodi'r bwriad i fod yn cynnal y cyfnod Galw am Safleoedd am gyfnod o leiaf 6 wythnos. Bydd ystyriaeth bellach angen cael ei roddi i ymarferoldeb a manteision agor y cyfnod Galw am Safleoedd am gyfod hwy na 6 wythnos, gan nodi'r angen i lynu at yr amserlen o'r camau statudol sydd wedi ei nodi yn y Cytundeb Cyflawni.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nodi'r sylw. Dim newid. |
| Aled Evans | CC8.2 | Dylid sicrhau bod y cynllun yn cael ei fabwysiadu neu ei wrthod cyn diwedd y Cyngor presennol . Mabwysiadwyd y cynllun Gwynedd a Mon dim ond ryw 3 mis i mewn i'r Cyngor 2017. Oherwydd hynny roedd tua traean o'r cynghorwyr oedd yn pleidleisio yn | Mae'r amserlen a nodir yn Rhan 2 y Cytundeb Cyflawni wedi ei lunio gan roddi ystyriaeth i'r angen i ddilyn camau statudol rhagnodol. Yn unol a Chanllawiau'r Llywodraeth mae gofyn paratoi Cynllun newydd o fewn cyfnod o dair mlynedd a hanner. |

| Enw | Cyf. Sylw | **2. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 2: Yr Adnoddau a'r Amserlen? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt.** | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | anghyfarwydd a'r holl beth. Sefyllfa anfoddhaol. | Nodir gan hynny yn sgil y camau statudol nad oes posib rhaglennu paratoi a mabwysiadu y Cynllun newydd o fewn cyfnod sydd yn llai na'r amserlen a baratowyd.<br><br>Ymhellach mae gwerth pwysleisio y byddai y cyfnod cyn etholiad (yr etholiad lleol yn 2027) yn golygu'r angen i anelu i fabwysiadu'r Cynllun cyn diwedd Mawrth 2027 ar yr hwyraf, sydd yn gyfnod o llai na tair mlynedd.<br><br>Er sicrhau llwyddiant y Cynllun a rhoi sylw dyledus i bob agwedd angenrheidiol cysylltiedig ystyrir fod yr amserlen sydd wedi ei baratoi yn rhesymol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nodi'r sylw. Dim newid. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | CC10.2 | Nodwn yr amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun. | **Argymhelliad**<br><br>Nodi'r sylw. Dim newid. |

**Cwestiwn 3:**

| Enw | Cyf. Sylw | **3. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 3: Rheoli Risg? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt.** | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Chris Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) | CC7.3 | Rydym yn gwerthfawrogi bod ystyriaeth ar gyfer lliniaru risg wedi'i chyflwyno'n drylwyr. | **Argymhelliad**<br><br>Nodi'r sylw. Dim newid. |

**Cwestiwn 4:**

| Enw | Cyf. Sylw | 4. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 4: Monitro ac Adolygu? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. | Ymateb y Cygnor |
|---|---|---|---|
| Chris Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) | CC7.4 | Mae'r adran hon yn drylwyr, dim sylwadau penodol. | **Argymhelliad**<br><br>Nodi'r sylw. Dim newid. |

**Cwestiwn 5**

| Enw | Cyf. Sylw | 5. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 5: Cwmpas y Cynllun Cynnwys Cymunedau? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| Sian Parri | CC1.5 | Hefyd yn pwynt 5.4.2 dylid ychwanegu ieithyddol.<br><br>5.4.2 Bydd rhaid i bob cam o’r broses CDLl fod yn destun AC. Mae AC yn broses dechnegol ond fe roddir cyfleoedd i bobl sydd â diddordeb ynddo i gyflwyno sylwadau. Un darn o waith a fydd angen ei wneud yn fuan yn y broses yma fydd ail ymweld â’r sail | Cytunir ei fod yn briodol diwygio geiriad para 5.4.2 i gynnwys cyfeiriad tuag at ieithyddol gan y byddai'n ychwanegu eglurder a chywirdeb yn gysylltiedig a'r Cytundeb Cyflawni a'r dyletswydd yn gysylltiedig a'r Arfarniad Cynaliadwyedd.<br><br>**Argymhelliad**<br>Derbyn - diwygio paragraff 5.4.2 yn unol a'r sylwadau. |

| Enw | Cyf. Sylw | 5. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 5: Cwmpas y Cynllun Cynnwys Cymunedau? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | dystiolaeth sydd yn cefnogi’r AC, sydd yn paratoi gwybodaeth am nodweddion, ieithyddol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Bydd y sail dystiolaeth yma a gwybodaeth arall yn ffurfio rhan o Adroddiad Cwmpasu. Bydd yr Adroddiad yma yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. | |
| John Ratcliff | CC2.5 | Paragraff 5.8 - Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i gynnwys Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd yn y broses hon, gan nodi pwysigrwydd strategol allweddol newid hinsawdd o ran cynaliadwyedd y cynllun datblygu. Efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol i alluogi'r swyddogaeth hon i gael ei defnyddio'n effeithiol yn y broses gynllunio. | Mae angen sicrhau fod sylw dyledus i faterion newid hinsawdd yn cael ei gyfarch o fewn y Cynllun newydd. I'r perwyl hwn, er mwyn dangos ei bwysigrwydd cytunir i ddiwygio paragraff 5.8.1 er cyfeirio tuag at newid hinsawdd fel enghraifft o bwnc a fydd yn destun Cyfarfod Gweithredol Trawsadrannol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio paragraff 5.8.1 gan gyfeirio at y bwriad i gynnal Cyfarfodydd Gweithredol Trawsadrannol sydd yn ymwneud yn benodol a Newid Hinsawdd. |
| Graham Davies | CC3.5 | Atodiad 5 eitem 2 - a yw aelodau'r tîm a nodir uchod wedi'u cymryd gan y tîm cynllunio presennol ac, os felly, gall yr Adran Gynllunio weithredu gydag aelodau'r tîm hyn yn cael y rhan fwyaf o'u hamser wedi'i ddyrannu i'r gwaith hwn. Os na allant wneud hynny, a fydd y flaenoriaeth i sicrhau peidio a methu yn y broses gynllunio drwy fethu â gweinyddu ceisiadau yn yr amserlen statudol a fyddai'n | Y tîm sydd yn bennaf gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol yw'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio, sydd yn wasanaeth ar wahân i'r Gwasanaeth Rheoli Datblygu Cynllunio. Gan hynny ni fydd y broses o baratoi'r Cynllun newydd yn effeithio ar allu'r Gwasanaeth Rheoli Datblygu i ymateb i a prosesu ceisiadau cynllunio o fewn yr amserlen benodol.<br><br>**Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |

| Enw | Cyf. Sylw | 5. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 5: Cwmpas y Cynllun Cynnwys Cymunedau? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | siŵr o dynnu sylw at adran sydd heb adnoddau digonol a hefyd yn oedi wrth gyflwyno'r CDLl? | |
| Thomas Brooks | CC6.5 | Mae'n hanfodol, yn ôl yr angen, fod y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau drwy gydol y broses. Nid yw'r Cytundeb Cyflawni drafft yn rhoi hyder i mi y bydd y Cyngor o reidrwydd yn gwneud hynny.<br><br>Mae'r Cyrff a restrir yn Atodiad 6 yn sefydliadau "ymbarél," nad yw barn gyffredinol a sylfaen wybodaeth fel arfer yn ymestyn i lawr i faterion lleol. Er enghraifft, o dan gyrff sy'n cynrychioli gwahanol grwpiau crefyddol rydych yn rhestru 'Ffederasiwn Cynulleidfaol Cymru'. Ni all gynnwys yr holl faterion perthnasol sy'n effeithio ar ardaloedd agored i niwed, fel Borth-y-Gest. Fel Cyd-Ysgrifennydd Capel Bethel, Borth-y-Gest, hoffwn gael gwybod am yr holl wybodaeth a allai effeithio ar gymuned ein Heglwys. | Mae sicrhau mewnbwn cymunedau i'r broses o lunio'r Cynllun datblygu yn gwbl hanfodol. Mae cyfle i unrhyw fudiad/elusen/unigolyn sydd a diddordeb yn y Cynllun gysylltu a'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio gyda'i manylion cyswllt. Bydd y manylion hynny'n cael ei ychwanegu i fasdata cysylltiadau y Cynllun Datblygu gan olygu eu bod yn cael ei hysbysu yn ystod y cyfnodau allweddol o baratoi'r Cynllun a'u cyfle(oedd) i roi mewnbwn i'r broses.<br><br>**Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |
| Chris Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) | CC7.5 | Mae hwn wedi'i baratoi'n dda, a byddem yn awgrymu bod ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ofalus yn y broses hon. | **Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |

| Enw | Cyf. Sylw | 5. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 5: Cwmpas y Cynllun Cynnwys Cymunedau? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | 5.2.1 Yn bendant yn cefnogi ac yn annog cymunedau sy'n cymryd rhan yn gynnar yn y broses CDLl. | |
| Walis George (Cymdeithas yr Iaith) | CC9.5 | Croesawn yr ymrwymiad yn rhan 5 i ddarparu cyfleoedd amrywiol i bobl a chymunedau lleol gymryd rhan lawn yn y broses o greu Cynllun Datblygu Lleol newydd o'r cychwyn. Mae'n galonogol bod y paragraff cyntaf yn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio. Dylai'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodau llesiant y Ddeddf fod yn gonglfaen i'r broses hon a'r system gynllunio gyfan yng Nghymru. Yn groes i'r broses a gynigir yn y Cynllun Cyflawni drafft, credwn mai cymunedau o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd ddylai fod yn arwain y broses Cynllun Datblygu Lleol gyda chymorth proffesiynol swyddogion y Cyngor. Dylai'r polisïau tai a defnydd tir yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd gael eu seilio ar asesiadau manwl o anghenion lleol mewn partneriaeth gyda'r cymunedau eu hunain, yn hytrach nag amcangyfrifon damcaniaethol o angen a galw fel sy'n arferol drwy Asesiadau o'r Farchnad Tai Lleol. Byddem yn tynnu eich sylw yn benodol at y ddarpariaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru i gymunedau gynhyrchu | Cytunir gyda'r egwyddor o sicrhau fod nodau'r Ddeddf Llesiant yn gonglfaen y Cynllun. Fe fydd yn ddyletswydd ar y Cyngor, drwy gydol y broses o baratoi y Cynllun i ddangos sut fo'r Cynllun yn cyrraedd gofynion y nodau llesiant.<br><br>Mae derbyn mewnbwn y cyhoedd a chymunedau Gwynedd yn rhan greiddiol o'r broses o baratoi'r Cynllun. Rôl y Cyngor fydd ystyried beth yw anghenion a dyheadau cymunedau Gwynedd a cheisio cyflawni'r weledigaeth hynny o fewn y Cynllun, cyn belled a bod hynny yn gyson â arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol.<br><br>Mae rhan 5.6 i 5.9 o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3 Mawrth 2020) yn cyfeirio tuag at Gynlluniau Lle (Place Plans). Mae'n amlygu "...Dylai Cynlluniau Lleoedd gydymffurfio â'r cynllun datblygu a chael eu mabwysiadu gan yr ALl fel canllawiau cynllunio atodol i'r cynllun..." yn ogystal mae'n datgan "...Nid yw Cynlluniau Lleoedd yn rhan o'r cynllun datblygu statudol; yn hytrach maent yn ychwanegu manylder at y cynllun mabwysiedig...".<br><br>Ym mhellach mae'r Llawlyfr a Pholisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio tuag at yr angen i'r Cynllun Datblygu gael ei gefnogi gan Asesiad Marchnad Tai Lleol. |

| Enw | Cyf. Sylw | 5. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 5: Cwmpas y Cynllun Cynnwys Cymunedau? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | Cynlluniau Cynefin (Place Plans). Byddai canlyniadau'r Asesiadau Cymunedol yn darparu sylfaen dystiolaeth 'go iawn' ar gyfer proses cynllunio cymunedol. Dylai proses cynllunio cymunedol roi cyfleoedd i'r boblogaeth leol gytuno ar ddatrysiadau tai sy'n addas i'w anghenion ac i ddylanwadu'n uniongyrchol ar ddyrannu safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy a thai marchnad agored yn y Cynllun Datblygu Lleol. Yn ogystal, dylai blaenoriaethau pob Cynllun Cynefin gael eu hadlewyrchu yn Strategaeth Tai Lleol yr awdurdod lleol, yn benodol y Prosbectws Grant Tai Cymdeithasol sy'n crynhoi'r angen am dai ac yn cadarnhau'r prosiectau tai y mae'r awdurdod am eu darparu gyda Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru. Byddai system o'r fath yn sefydlu atebolrwydd y Cyngor i gymunedau lleol trwy gydol camau datblygu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Strategaeth Tai Lleol. | Rhaid cofio bod y Cynllun ar gyfer cyfnod o 15 mlynedd (2024 i 2039) tra bod asesiad manwl o anghenion tai dim ond yn gyfoes am gyfnod o 5 mlynedd. |
| Cymunedoli Cyf | CC13.5 | "Paragraff 5.4.1: Hoffem nodi ein awydd i gyfranogi at eich gwaith casglu sail tystiolaeth a phapurau testun (fel y noder yn Atodiad 2: Cyfnod Cyd-Adneuo). Paragraff: 5.4.2: Hoffem nodi ein awydd i gyfranogi at eich gwaith casglu sail tystiolaeth (fel y Noder yn Atodiad 2: Cyfnod Adroddiad | Croesawir parodrwydd yr ymatebydd i gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae manylion Cymunedoli eisoes ar ein basdata o randdeiliaid anstatudol a olygai y byddem yn derbyn gohebiaeth gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio (fel yn briodol) er cyfrannu a rhoi mewnbwn i'r broses o baratoi'r Cynllun. |

| Enw | Cyf. Sylw | 5. A oes gennych unrhyw sylwadau ar Ran 5: Cwmpas y Cynllun Cynnwys Cymunedau? Nodwch pa rif(au) paragraff a/neu rif(au) tudalen yr ydych yn gwneud sylwadau arnynt. | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | Cwmpasu'r AC) a gofynnwn am y cyfle i ymuno a chi mewn unrhyw gyfarfodydd llywio." | **Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |
| Mike Stevens | CC14.5 | Para 5.2.2 mae'n hanfodol annog a chael mewnbwn gan grwpiau a chymdeithasau ym mhob ardal. Yn aml nid yw llawer o Gynghorau Cymuned a Chynghorwyr yn siarad dros bawb. Mae gan sefydliadau busnes farn benodol iawn, felly mae'n rhaid eu cynnwys. | Cytunir gyda ewyllys y sylw. Anogir unrhyw unigolion, mudiad neu fusnes sydd a ddiddordeb yn y Cynllun Datblygu Lleol i gysylltu a'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio er mwyn cynnwys eu manylion cyswllt ar ein bastata cysylltiadau.<br><br>Pan yn briodol fe fydd ymdrech hefyd yn cael ei wneud i dargedu grwpiau diddordeb penodol.<br><br>**Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |

**Cwestiwn 6**

| Enw | Cyf. Sylw | 6. A ydych yn gwybod am gyrff statudol, penodol neu gyffredinol ychwanegol i'r rhai sydd yn Atodiad 6 o'r Cytundeb Cyflawni drafft (gweler atodiad 6)? | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| Sian Parri | CC1.6 | Rwyf yn gofyn i chi ychwanegu Cyfeillion Llyn i'r rhestr i roid sylwadau. | Cytunir y dylid ychwanegu Cyfeillion Llyn i'r rhestr o Gyrff Ymgynghori Cyffredinol yn Atodiad 6.<br><br>**Argymhelliad**<br>Diwygio Atodiad 6 yn unol a'r sylw. |

| Enw | Cyf. Sylw | 6. A ydych yn gwybod am gyrff statudol, penodol neu gyffredinol ychwanegol i'r rhai sydd yn Atodiad 6 o'r Cytundeb Cyflawni drafft (gweler atodiad 6)? | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| John Ratcliff | CC2.6 | Cynnwys Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru) yn Atodiad 6. | Cytunir y dylid ychwanegu Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd i'r rhestr o Gyrff Ymgynghori Cyffredinol yn Atodiad 6.<br><br>**Argymhelliad**<br>Diwygio Atodiad 6 yn unol a'r sylw. |
| Richard Mills | CC4.6 | Dylid newid "Cyfeillion y Ddaear Gwynedd a Môn" gyda Gweithredu Hinsawdd Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r grŵp blaenorol wedi darfod, ac mae'r grŵp yma wedi ei ddisodli i bob pwrpas. | Cytunir fod angen diwygio a cynnwys yr enw cywir (Gweithredu Hinsawdd Gogledd Orllewin Cymru) er sicrhau cywirdeb.<br><br>**Argymhelliad**<br>Diwygio Atodiad 6 yn unol a'r sylw. |
| Thomas Brooks | CC6.6 | Oes, o ran sefydliadau lleol sydd â diddordeb. Yn fy nghymuned i o Borth-y-Gest, mae Cyfeillion Borth-y-Gest wedi cyfrannu'n rheolaidd at brosesau cynllun datblygu lleol. O dan yr amgylchiadau presennol, rwyf wedi gofyn am gyfrannu ar ran Capel Bethel, Borth-y-Gest mewn ateb i gwestiwn 5 uchod. | Mae sicrhau mewnbwn cymunedau i'r broses o lunio'r Cynllun datblygu yn gwbl hanfodol. Mae cyfle i unrhyw fudiad/elusen/unigolyn sydd a diddordeb yn y Cynllun gysylltu a'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio gyda'i manylion cyswllt. Bydd y manylion hynny'n cael ei ychwanegu i fasdata cysylltiadau y Cynllun Datblygu gan olygu eu bod yn cael ei hysbysu yn ystod y cyfnodau allweddol o baratoi'r Cynllun a'u cyfle(oedd) i roi mewnbwn i'r broses.<br><br>**Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |
| Chris Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) | CC7.6 | Mae'r ymgynghoreion wedi'u rhestru'n dda. Rydym yn argymell ychwanegu'r cyrff canlynol:<br><br>• Chwarae Cymru – cynrychioli anghenion gofod chwarae i blant. | Cytunir fod angen diwygio Atodiad 6 yn unol a'r sylw er sicrhau cywirdeb.<br><br>**Argymhelliad**<br>Diwygio Atodiad 6 yn unol a'r sylw. |

| Enw | Cyf. Sylw | 6. A ydych yn gwybod am gyrff statudol, penodol neu gyffredinol ychwanegol i'r rhai sydd yn Atodiad 6 o'r Cytundeb Cyflawni drafft (gweler atodiad 6)? | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | • Croeso Menai – cysylltu â llais ein dinasyddion mwyaf newydd a mwyaf bregus<br>• Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl<br>• O fewn adran Diwylliant Cymru, angen sicrhau bod hanes lleol Cymru yn cael ei gynnwys fel rhan o ddeall beth mae tir a mannau yn ei olygu i bobl. | |
| Cymunedoli Cyf | CC13.6 | Tudalen 59-60 o Atodiad 6: Nid yn unig yr iaith mae cyrff fel Cymunedoli Cyf., Partneriaeth Ogwen a Dyffryn Nantlle 20:20 yn eu cynrychioli. Hoffem weld is-bennawd arall yn fan yma gyda'r teitl "cyrff sy'n cynrychioli buddiannau Mentrau Cymunedol Gwynedd" a rhestru y tri grwp uchod o dan y teitl yma. Mae 5 nod Deddf Llesiant 2015 o fewn ystod y Mentrau Cymunedol ynghyd a buddiannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yr ardal mae nhw'n eu cynrychioli. | Nodir y sylw a chytunir fod teitl y pennawd ddim yn gwir adlewyrchu dyletswyddau/buddiannau y grwpiau a restrir o dan y pennawd. Yn hytrach na chynnwys pennawd newydd, cynigir diwygio geiriad y pennawd presennol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Diwygio geiriad y teitl i ddarllen:- Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau'r iaith Gymraeg **a chymunedau Gwynedd** |

**Cwestiwn 7:**

| Enw | Cyf. Sylw | 7 A oes gennych sylwadau ychwanegol neu awgrymiadau am y Cytundeb Cyflawni Drafft? | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| Thomas Brooks | CC6.7 | Dim ond bod ymgynghori gyda chymunedau lleol yn hanfodol i gynhyrchu unrhyw | Cytuno a'r sylw. |

| **Enw** | **Cyf. Sylw** | **7 A oes gennych sylwadau ychwanegol neu awgrymiadau am y Cytundeb Cyflawni Drafft?** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|---|
| | | gynlluniau datblygu lleol sy'n gyffredinol dderbyniol. | **Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |
| Chris Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) | CC7.7 | Rydym yn dod i'r casgliad ei fod yn gadarn ac yn gynhwysfawr yn ei ystyriaethau.<br><br>Mae'r awduron wedi gwneud gwaith gofalus o nodi'r strategaeth berthnasol a'r cyd-destun polisi, maent wedi nodi'n glir amserlen ar gyfer ymgynghori a chyflawni'r camau a nodwyd, ac maent wedi nodi'r bwriad i ymgysylltu â chymunedau, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchodedig a'r poblogaethau 'angen i gyrraedd'. Mae'r angen am gysylltiadau â mannau naturiol yno, yn ogystal â'r angen i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd a chreu datblygiadau sy'n gwella ac yn cefnogi lles y boblogaeth.<br><br>Er bod hyn yn nodi ymadawiad o ddatblygu CDLl ar y Cyd â Chyngor Sir Ynys Môn, mae'r ddogfen yn nodi bwriad clir i ystyried mewnbwn gan awdurdodau cyfagos a chydweithio ag awdurdodau eraill ar feysydd datblygu angenrheidiol. O safbwynt iechyd nid ydym yn gweld unrhyw risgiau yn y Cytundeb Cyflawni hwn a byddem yn hapus i gefnogi'r camau a ddisgrifir. | **Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |

| Enw | Cyf. Sylw | 7 A oes gennych sylwadau ychwanegol neu awgrymiadau am y Cytundeb Cyflawni Drafft? | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | CC10.7 | Hoffem gynnig ymgysylltiad anffurfiol â'ch tîm drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun, e.e. darparu data amgylcheddol, ac haenau GIS eraill. | **Argymhelliad**<br><br>Nodi'r sylw. Dim newid. |
| Helena Jones | CC12.1 | Gan fy mod wedi cyflwyno'r darn o dir sydd berchen a mi ym Mhontllyfni o'r blaen, dywedwyd wrthyf nad oedd posib ei ystyried gan fod Pontllyfni yn cael ei ystyried fel pentref ond yn hytrach yn glwstwr. Mae gennym ysgol gynradd yma a byddwn yn dweud digon o eiddo i ddweud ei fod yn bentref. Roedd y tir sydd gennym wedi ei leoli union du allan i'r ffin datblygu a bellach mae'n glwstwr. Felly, rwy'n teimlo'n gryf na ddylai Pontllyfni gael ei ystyried fel clwstwr. | Nid yw'r sylwadau a gyflwynir yn berthnasol i'r Cytundeb Cyflawni. Os yn briodol, anogir yr ymatebydd i gyflwyno sylwadau yn ystod cyfnod ymgynghori perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>**Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |
| Mike Stevens | CC14.1 | Mae'n edrych yn dda. | **Argymhelliad**<br><br>Nodi'r sylw. Dim newid. |

**Cwestiwn 8:**

| **Enw** | **Cyf. Sylw** | **8. Oes yna unrhyw newidiadau y gallwn eu gwneud i'r broses sydd yn cael ei hamlinellu yn y Gytundeb Cyflawni er mwyn sicrhau ein bod yn casglu a chlywed barn y cyhoedd a budd-ddeiliaid allweddol ar faterion sydd yn ymwneud efo'r iaith Gymraeg?** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|---|
| Aled Evans | CC8.8 | Credaf i mi nodi hyn eisoes. Ond gobeithio na fydd y Gymraeg a'r sylw iddi yn cael ei chladdu fel petai. Hynny yw bod rhywun yn deud ei bod yn cael ei thrin a'i hystyried dan y ddeddf llesiant er enghraifft. | Mae ystyried effeithiau tebygol y CDLl ar y Gymraeg yn elfen hanfodol o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae Llawlyfr CDLl yn annog ymgymryd a'r dull integredig o asesu effaith wrth ymgymryd a pharatoi CDLl, gan nodi fod yn cynnig cyfle i gynnal asesiad sydd yn fwy tryloyw, cyfrannol a cynhwysfawr.<br><br>Nid oes penderfyniad wedi ei wneud hyd yma ynglŷn a chynnal asesiad integredig neu cynnal asesiad unigol<br><br>**Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |
| Walis George (Cymdeithas yr Iaith) | CC9.8 | Sefydlu trefn ymgysylltu gyda Fforwm Iaith Gwynedd sy'n cynnwys nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau'r iaith Gymraeg yn y sir. | Mae Fforwm Iaith Gwynedd wedi cael ei adnabod fel un o'r ymgynghoreion anstatudol y mae bwriad ymgysylltu a hwy yn ystod y broses o baratoi y Cynllun Datblygu Lleol. Gan hynny, fe gysylltir a'r Fforwm Iaith yn ystod y broses o baratoi y Cynllun.<br><br>**Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |
| Cymunedoli Cyf | CC13.8 | Mae'n edrych yn debyg bod Asesiad Effaith anghywir wedi ei atodi yn y linc Cymraeg. Ond rwyf yn fodlon fy mod wedi cael y cyfle i ddarllen y fersiwn Saesneg yn ei gyfanrwydd. | Yn dilyn cael tynnu ein sylw i'r gwall hyn, mae'r fersiwn cywir o'r Asesiad wedi cael ei osod ar wefan y Cyngor. Nodir fod yr Asesiad hefyd ar gael i'w archwilio yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol ynghyd a swyddfeydd y Cyngor. |

| Enw | Cyf. Sylw | 8. Oes yna unrhyw newidiadau y gallwn eu gwneud i'r broses sydd yn cael ei hamlinellu yn y Gytundeb Cyflawni er mwyn sicrhau ein bod yn casglu a chlywed barn y cyhoedd a budd-ddeiliaid allweddol ar faterion sydd yn ymwneud efo'r iaith Gymraeg? | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| | | | **Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |
| Mike Stevens | CC14.8 | Daliwch ati i hyrwyddo'r CDLl er annog pobl i gymryd rhan. | **Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid. |

**Cwestiwn 9:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw** | **Cyf. Sylw** | **9. Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae nodweddion cydraddoldeb yn cynnwys, oed; ailbennu rhywedd; rhyw; hil (yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd); anabledd; beichiogrwydd a mamolaeth; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd neu gred (gan gynnwys heb gred); priodas a phartneriaeth sifil.**<br><br>**Ymhellach, yn unol â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (2021) mae'n ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried sut gall penderfyniadau strategol, gan gynnwys gosod amcanion a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, leihau anghydraddoldebau o safbwynt y canlyniad i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, hynny yw pobl sydd yn byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol na phobl eraill yn yr un gymdeithas (e.e. tlodi ariannol, tlodi digidol, byw yn bell o wasanaethau ayb).**<br><br>**Yn eich barn chi, a yw'r Gytundeb Cyflawni yn debygol o gael effaith ar**<br>**• grwpiau o bobl gyda nodweddion cydraddoldeb** | **Ymateb y Cyngor** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **• bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol** | |
| Heather Jones (Cyngor Cymuned Y Felinheli) | CC5.9 | Dim yn rhagweld ar hyn o bryd. | **Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid |
| Thomas Brooks | CC6.9 | Yndi. Y ddau. | **Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid |
| Chris Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) | CC7.9 | Dylai defnydd gofalus o'r broses ymgynghori helpu i adnabod a lliniaru'r anghydraddoldebau a nodwyd, ac eraill o bosibl hefyd. | Mae ystyriaeth ofalus wedi ei roi i sicrhau bod y broses ymgynghori yn gynhwysol. Bydd unrhyw gyfleoedd a allai godi i liniaru'r anghydraddoldebau a nodwyd yn cael sylw drwy'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei ddiwygio drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun.<br><br>**Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid |
| Walis George (Cymdeithas yr Iaith) | CC9.9 | Yn ôl pob tebyg. | **Argymhelliad**<br>Nodi'r sylw. Dim newid |
| Cymunedoli Cyf | CC13.9 | Gellir cwestiynu os yw 6 wythnos ymgynghori yn ddigonol i unigolion yn wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol o fewn eu cymunedau i ymateb. Golygai hynny 6 penwythnos/12 diwrnod (gan eu bod yn gweithio 5 diwrnod yr wythnos) i geisio creu pecyn ystyriol yn ymateb i eich papur gweledigaeth a'r opsiynau strategol. Gofynnir am 8 wythnos oeliaf. | Mae’r gofyniad i ymgynghori am gyfnod o 6 wythnos yn deillio o’r rheoliadau perthnasol. Er mwyn sicrhau fod yr amserlen yn rhedeg yn esmwyth ni fwriedir ymestyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus sydd yn berthnasol i’r Weledigaeth a’r Opsiynau Strategol.<br><br>**Argymhelliad**<br><br>Nodi’r sylw. Dim newid. |
| Mike Stevens | CC14.9 | Mae Gwynedd wedi cael ei mygu gan reolau cynllunio gormesol. Nid oes gennym dai i'n teuluoedd ifanc, yn enwedig yn ardal Tywyn.<br><br>Rhowch gorau i gyfeirio at dwristiaeth fel problem, mae'n gyfle y mae'n rhaid i ni ei | **Argymhelliad**<br><br>Nodi’r sylw. Dim newid. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wella i ddod â refeniw, swyddi a ffyniant.<br><br>Mae pobl negyddol yn gweld problemau. Mae pobl positif yn gweld cyfle. | |

Atodiad 1 – Adroddiad Ymgynghori